# Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant 2020-2024

## Atodiad A: Adroddiad Ymgynghori ar ein hamcanion




UCHELGAIS PRIFDDINAS CAPITAL AMBITION

CARDIFF CAERDYDD

# Cynnwys

**Dibe** ....... 3

**Cefndir** ....... 3

**Datblygu ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol arfaethedig** ....... 5

**Canfyddiadau'r adolygiad tystiolaeth cychwynnol** ....... 6

**Y broses ymgynghori** ....... 12

**A phwy wnaethom ymgynghori?** ....... 12

**Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad fesul Amcan**

**Amcan 1**: Datblygu a darparu gwasanaethau sy'n ymateb i fwlch anghydraddoldeb Caerdydd ....... 15

**Amcan 2:** Arwain y ffordd ar gydraddoldeb a chynhwysiant yng Nghymru a'r tu hwnt ....... 17

**Amcan 3:** Mae Caerdydd yn hygyrch i bawb sy'n byw yn, yn ymweld â, neu'n gweithio yn y ddinas ....... 20

**Amcan 4:** To build an inclusive and representative organisation ....... 22

**Adolygu'r broses o gyflawni ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol yn dilyn dechrau'r Pandemig Coronafeirws** ....... 24

**Y dystiolaeth a lywiodd ein Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant 2020-2024** ....... 25

# Diben

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau ein hymgynghoriad cyhoeddus a staff ynghylch ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol arfaethedig ar gyfer 2020-2024 a'r camau i'w cymryd er mwyn eu cyflawni.

Roedd yr ymgynghoriad hwn yn llywio'r gwaith o ddatblygu ein Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant 2020-2024.

# Cefndir

Daeth dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus i rym ym mis Ebrill 2011 (adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010). Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus, fel awdurdodau lleol, roi sylw dyledus i'r angen i gyflawni'r amcanion a nodir o dan a149 Deddf Cydraddoldeb 2010 wrth gyflawni eu swyddogaethau, er mwyn:

(a) dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth ac ymddygiad arall a waherddir gan, neu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010;

(b) hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt yn rhannu'r nodwedd honno.

(c) meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt yn rhannu'r nodwedd honno.

Er mwyn sicrhau tryloywder, ac er mwyn helpu i gyflawni'r ddyletswydd hon, mae Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Penodol) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol, i awdurdodau cyhoeddus a enwyd, gyhoeddi:

- amcanion cydraddoldeb, o leiaf bob pedair blynedd (o 6 Ebrill 2012)
- gwybodaeth i ddangos eu bod yn cydymffurfio â dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus (o 31 Ionawr 2012)

Mae pennu amcanion cydraddoldeb effeithiol yn hanfodol i gyflawni'r ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol ac wrth weithio tuag at well canlyniadau i bobl â'r holl nodweddion gwarchodedig.

Mae’r Ddeddf yn egluro bod rhoi sylw dyledus i nod (b) o a.149, hyrwyddo cydraddoldeb, yn cynnwys:

- Dileu neu leihau anfanteision y mae pobl yn eu hwynebu oherwydd eu nodweddion gwarchodedig
- Rhoi camau ar waith i ddiwallu anghenion pobl o grwpiau a ddiogelir pan fo’r anghenion hynny’n wahanol i anghenion pobl eraill
- Annog pobl sydd â nodweddion gwarchodedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn gweithgareddau eraill lle mae’r gyfran ohonyn nhw sy’n cymryd rhan yn gymharol isel.

Mae’r Ddeddf yn nodi bod diwallu anghenion gwahanol yn golygu cymryd camau er mwyn ystyried anableddau pobl anabl. Mae’n disgrifio meithrin cysylltiadau da fel mynd i’r afael â rhagfarn a hyrwyddo dealltwriaeth rhwng pobl o wahanol grwpiau. Mae’n nodi y gallai cydymffurfio â’r ddyletswydd olygu trin rhai pobl yn fwy ffafriol nag eraill.

Mae’r ddyletswydd cydraddoldeb yn cwmpasu’r naw nodwedd warchodedig:

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu Rhywedd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Priodas a phartneriaeth sifil
- Hil
- Crefydd neu gred
- Cyfeiriadedd
- Rhywiol
- Cyfeiriadedd Rhywiol

Mae angen i awdurdodau cyhoeddus hefyd roi sylw dyledus i’r angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon yn erbyn rhywun oherwydd eu statws priodas neu bartneriaeth sifil. Mae hyn yn golygu bod nod cyntaf y ddyletswydd yn berthnasol i’r nodwedd hon ond nad yw’r nodau eraill (hyrwyddo cydraddoldeb a meithrin cysylltiadau da) yn berthnasol.

Mae’r adroddiad hwn yn amlinellu’r gwaith o ddatblygu ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2020-2024 a’r gwaith ymgynghori arnynt, yn unol â’n dyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus.

# Datblygu ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol arfaethedig 2020-2024

Y man cychwyn wrth ddatblygu ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol oedd sefydlu ein sylfaen dystiolaeth o ran cydraddoldeb yng Nghaerdydd. Roedd hyn yn ceisio nodi'r materion pwysicaf sy'n wynebu pobl sydd â nodweddion gwarchodedig gwahanol ar hyn o bryd neu sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn ein dinas.

Cafodd ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol drafft cychwynnol eu llywio gan adolygiad cynhwysfawr o'n sylfaen dystiolaeth leol, genedlaethol a'r DU gyfan, ac asesiad o waith a gweithgareddau ein sefydliad, gan gynnwys ein rôl fel cyflogwr pwysig yng Nghaerdydd, ein darpariaeth o wasanaethau a'n gwaith o ddatblygu polisi.

Cafodd ein dadansoddiad ei lywio hefyd drwy adolygu'r camau rydym eisoes wedi'u cymryd i gyflawni ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol 2016-2020 ac i gyflawni dyletswyddau penodol eraill sy'n berthnasol i gydraddoldeb. Cynhaliwyd ymarfer meincnodi gennym hefyd a oedd yn asesu ein gwaith cydraddoldeb presennol yn erbyn Fframwaith Cydraddoldeb y Gymdeithas Llywodraeth Leol.[1]

## Adolygu tystiolaeth ac ymarfer

Datblygwyd ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol arfaethedig drwy adolygiad tystiolaeth cynhwysfawr ac ymarfer meincnodi a oedd yn asesu ein gwaith cydraddoldeb presennol yn erbyn Fframwaith Cydraddoldeb y Gymdeithas Llywodraeth Leol.

Er mwyn datblygu ein sylfaen dystiolaeth gychwynnol i lywio ein hamcanion arfaethedig, cwblhawyd:

- Dadansoddiad o ofynion deddfwriaethol cydraddoldeb
- Dadansoddiad o flaenoriaethau polisi lleol a'u cyfraniad at wneud Caerdydd yn ddinas decach a mwy cyfartal
- Asesu ein gwaith cydraddoldeb presennol yn erbyn Fframwaith Cydraddoldeb y Gymdeithas Llywodraeth Leol
- Adolygiad o setiau data cenedlaethol a lleol sy'n berthnasol i grwpiau nodweddion gwarchodedig ac anfantais economaidd-gymdeithasol
- Dadansoddiad o ymatebion ymgynghori ar gydraddoldeb blaenorol y Cyngor

1. Fframwaith Cydraddoldeb y Gymdeithas Llywodraeth Leol

- Dadansoddiad o'n perfformiad yn erbyn meincnodi cynlluniau cydraddoldeb fel Mynegai Cydraddoldeb Stonewall

- Adolygiad o ymchwil a chyhoeddiadau diweddar gan gyrff cynrychioliadol a grwpiau eiriolaeth sy'n cynrychioli'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig neu sy'n mynd i'r afael â thlodi yng Nghymru neu'r DU.


Mae'r llyfryddiaeth lawn o ffynonellau tystiolaeth a pholisi a lywiodd ein Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant 2020-2024 ar gael o dudalen __ o'r adroddiad ymgynghori hwn.

# Canfyddiadau'r adolygiad tystiolaeth cychwynnol


Mae Caerdydd yn gartref i rai o'r wardiau mwyaf a lleiaf difreintiedig yng Nghymru. Mae bron i draean o aelwydydd Caerdydd yn byw ar incwm isel ac mae canran uchel o blant yn byw mewn cartrefi di-waith ac incwm isel. Dim ond dau awdurdod lleol arall yng Nghymru, Merthyr Tudful a Chasnewydd, sydd â chanran uwch o'u poblogaeth yn byw yn y cymunedau tlotaf yng Nghymru. Mae gwahaniaethau sylweddol mewn amddifadedd rhwng Arc Ddeheuol Caerdydd a gweddill y ddinas.

Er gwaethaf twf economaidd Caerdydd dros y 30 mlynedd ddiwethaf, mae'r patrymau o dlodi ac anghydraddoldeb a ymddangosodd genhedlaeth yn ôl yn parhau o hyd. Er gwaethaf lefelau cyflogaeth cynyddol cyn dechrau'r pandemig coronafeirws, yn gynyddol, nid yw gwaith yn gwarantu safon byw ddigonol. Yn ogystal, canfu ein hadolygiad o dystiolaeth fod lleiafrifoedd ethnig a'r rhai sydd ag anabledd, sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio, yn fwy agored i ddiweithdra hirdymor.

### Ffigwr 1: Canran yr ACEHIau yn y 10% o Ardaloedd Mwyaf Difreintiedig yng Nghymru (Safle 1-191), Amddifadedd Cyffredinol MALIC 2019



## Ffigwr 2: Amddifadedd Cyffredinol MALIC 2019 – Arc Ddeheuol




## Ffigwr 3: Anghydraddoldeb incwm Awdurdodau Rhanbarthol a Lleol (gan ddefnyddio data incwm aelwydydd arbrofol - SYG)

| Deg maes lle mae anghydraddoldeb incwm ar ei uchaf | |
|---|---|
| **Awdurdod Lleol** | **Cyflog y gweithwyr tlotaf fel cyfran o'r cyfoethocaf** |
| Haringey | 58.0 % |
| **CAERDYDD** | **62.2 %** |
| Merton | 63.4 % |
| Warrington | 66.3 % |
| Wandsworth | 66.4 % |
| Swindon | 67.4 % |
| Enfield | 69.6 % |
| Kensington and Chelsea | 69.8 % |
| Camden | 69.8 % |
| Carlisle | 70.0 % |
| Data: ONS | |

Mae gan bobl o grwpiau economaidd-gymdeithasol is ddisgwyliad oes byrrach a chyfraddau marwolaethau cynamserol uwch na chyfraddau o grwpiau economaidd-gymdeithasol uwch, gyda gwahaniaeth disgwyliad oes o 11.6 mlynedd rhwng yr ardaloedd mwyaf cyfoethog a thlotaf yn y ddinas.  Mae bwlch disgwyliad oes iach o rhwng 22 a 24 oed rhwng y cymunedau mwyaf difreintiedig a'r cymunedau lleiaf difreintiedig.

Mae plant sy'n cael eu magu mewn tlodi yn fwy tebygol o brofi iechyd gwael, cyrhaeddiad addysgol gwael, bod ag uchelgeisiau is a bod yn ddibynnol ar les pan fyddant yn oedolion. Mae diwygiadau ledled y DU i nawdd cymdeithasol a threthi ers 2010 wedi cael effaith anghymesur o negyddol ar y tlotaf yn y gymdeithas, yn enwedig ar fenywod, pobl anabl, lleiafrifoedd ethnig a rhieni unigol yng Nghymru.

Fel dinasoedd eraill y DU, tai yw un o elfennau allweddol anghydraddoldeb yng Nghaerdydd. Mae tai yng Nghaerdydd yn gymharol anfforddiadwy o gymharu â dinasoedd craidd eraill, gyda thŷ cyffredin yn costio bron saith gwaith y cyflog cyfartalog. Dim ond ym Mryste a Manceinion mae tai yn llai fforddiadwy.


Roedd nifer y bobl yng Nghymru sy'n profi digartrefedd wedi bod yn cynyddu ac yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae nifer cynyddol o bobl yn cysgu ar y stryd yng Nghaerdydd. Er y gwnaed cynnydd sylweddol i wella canlyniadau i bobl sy'n cysgu ar y stryd a chefnogi pobl i lety drwy gydol 2018-2020, mae yna gyfleoedd i wella ein gwasanaethau digartrefedd ymhellach er mwyn darparu model tai yn gyntaf.

Yng Nghaerdydd, mae'r rhai sydd o dan 35 oed, o gefndiroedd Duon a Lleiafrifoedd Ethnig, pobl sy'n byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig y ddinas a phobl anabl yn sgorio'n is na'r cyfartaledd yn erbyn y Dangosyddion Llesiant cenedlaethol.

Canfu tystiolaeth ymgynghori drwy ein Harolwg Holi Caerdydd blynyddol fod 57 % o bobl sy'n byw yng Nghaerdydd yn credu nad ydynt yn cael y cyfle i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau gan yr awdurdod lleol a bod 67 % o bobl sy'n byw yng Nghaerdydd yn credu nad ydynt yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal.

Cafodd y rhan fwyaf o droseddau casineb a adroddwyd ac a gofnodwyd yng Nghymru (ac yn lleol yng Nghaerdydd), eu hysgogi gan hil neu grefydd. Mae nifer cynyddol o droseddau casineb LHDT hefyd.

## Ffigwr 4: Ystadegau Troseddau Casineb Misol Caerdydd Cymorth i Ddioddefwyr Ionawr 2018-Tachwedd 2019




Dywedodd ein dadansoddiad o ddata'r gweithlu wrthym:

- Cyfran y cyflogeion yn y Cyngor sy'n nodi bod ganddynt anabledd oedd 0.81 % ym mis Rhagfyr 2017, ac mae hyn wedi cynyddu i 1.28 % yn 2019.
- Mae cyfran y cyflogeion Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (PDdALIE) wedi cynyddu o 5.5 % yn 2015 i 10.03 % yn 2019.
- O'r 33.12 % o gyflogeion sydd wedi darparu gwybodaeth am eu cyfeiriadedd rhywiol, mae 4.4 % wedi nodi eu bod yn LHDT. Nid yw hyn wedi newid ers y blynyddoedd diwethaf.
- Mae 85 % o weithwyr rhan amser yn fenywod
- Mae 4.5 % o gyflogeion o dan 25 oed

Ar ôl cwblhau'r adolygiad tystiolaeth cychwynnol hwn, datblygwyd yr Amcanion Cydraddoldeb Strategol drafft canlynol gennym ar gyfer ymgynghori, ac amlinellwyd rhai meysydd posibl i ganolbwyntio arnynt wrth eu cyflawni:

### Amcan 1:

**Datblygu a darparu gwasanaethau sy'n ymateb i fwlch cydraddoldeb Caerdydd**

- Darparu ein rhaglen uchelgeisiol ar gyfer adeiladu tai i ddarparu 2,000 o gartrefi cyngor newydd a pharhau i weithredu yn erbyn landlordiaid twyllodrus.
- Cyflawni ein Strategaeth Digartrefedd 2018-2022 er mwyn diwallu anghenion tai rhai o'n trigolion mwyaf agored i niwed.
- Cefnogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol cyhyd â phosibl.
- Cefnogi'r rhai sy'n gadael gofal a phobl ifanc sy'n agored i niwed i mewn i'w bywydau fel oedolion er mwyn iddynt allu cyflawni eu potensial.

### Amcan 2:

**Arwain y ffordd ar gydraddoldeb a chynhwysiant yng Nghymru a'r tu hwnt**

- Cyflawni ein Cynllun Gweithredu Cyflog Byw.
- Dod yn Ddinas sy'n Dda i Blant a gydnabyddir gan UNICEF fel man lle mae gan bob plentyn a pherson ifanc gyfle cyfartal i ffynnu a chyrraedd eu potensial.
- Meithrin cydlyniant ac ymdeimlad o gymuned mewn cymdeithas sy'n newid ac yn carfanu'n gyflym trwy gyflawni Strategaeth Cydlyniant Cymunedol Llywodraeth Cymru.
- Datblygu Strategaeth Ymgysylltu â Dinasyddion i wella cyfranogiad dinesig a chefnogi cymunedau nas clywir yn aml er mwyn dylanwadu ar ddyfodol ein dinas.

| Amcan 3: |
| --- |
| **Sicrhau cynnydd mesuradwy o ran y graddau y mae cymunedau sy'n wynebu anghydraddoldeb yn gallu rhannu yn llwyddiant y ddinas a chyfrannu ato** |
| • Gwella hygyrchedd yn ein hamgylchedd adeiledig.<br>• Gwella hygyrchedd gwasanaethau a mannau agored y Cyngor, yn enwedig i'r rheini sydd ag anableddau, a'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg.<br>• Gwella ein gwaith o gasglu a dadansoddi data ar gyfer data monitro cydraddoldeb er mwyn sicrhau bod ein dulliau o fynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn cael eu llywio gan dystiolaeth.<br>• Sicrhau defnydd cyson o Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb i gynhyrchu dadansoddiad gwybodus o ansawdd uchel o effaith newidiadau i'n gwasanaethau, ac ymgorffori'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn ein fframwaith asesu presennol. |

| Amcan 4: |
| --- |
| **Creu sefydliad cynhwysol a chynrychioliadol** |
| • Datblygu ein gweithlu, drwy recriwtio a datblygu wedi'i dargedu, fel ei fod yn gynrychioliadol ar bob lefel o'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.<br>• Cefnogi ein rhwydweithiau cydraddoldeb i ddatblygu a chyflawni eu cynlluniau gweithredu.<br>• Adnewyddu a moderneiddio ein rhaglen o hyfforddiant cydraddoldeb a chodi ymwybyddiaeth i staff, gan gynnwys datblygu cwrs 'Cydraddoldeb mewn Datblygu Polisi' i reolwyr a llunwyr polisi.<br>• Parhau i gyflawni cynllun gweithredu uchelgeisiol i wella ein Sgôr Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall DU.<br>• Cyflawni ein hymrwymiadau fel llofnodwr Siarter Cydraddoldeb Hiliol Busnes yn y Gymuned, gan gynnwys penodi Noddwr Gweithredol ar gyfer Hil, a chasglu a chyhoeddi ein data ethnigrwydd a'n bwlch cyflog ethnigrwydd.<br>• Arwain y ffordd o ran sut mae cyflogwyr yn recriwtio, cadw a datblygu pobl anabl drwy ein hachrediad Hyderus o ran Anabledd. |

# Y broses ymgynghori

Gwahoddwyd trigolion Caerdydd, staff y Cyngor a sefydliadau sy'n cynrychioli grwpiau nodweddion gwarchodedig a chymunedau o ddiddordeb eraill, gan gynnwys y rhai ar incwm isel, i fwydo tystiolaeth a syniadau i ni ynglŷn â'n hamcanion arfaethedig a sut i'w cyflawni.

Roedd ymarferion ymgynghori yn cynnwys nifer o grwpiau ffocws rhanddeiliaid gyda grwpiau o drigolion sydd ag ystod o nodweddion gwarchodedig, cynnwys ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol arfaethedig yn Arolwg Dinas Deg 2020 mewn fformatau arolwg copi caled ac ar-lein, sesiynau un-i-un gydag arweinwyr cydraddoldeb enwebedig y gwasanaeth a Seminar y Ddinas Deg, a wahoddodd arbenigwyr ar dlodi, y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus i ymgysylltu ag adrannau'r Cyngor a rhanddeiliaid ehangach er mwyn cyfrannu at y datblygiad o'n gweledigaeth ar gyfer 2020-2024.

Yn ogystal, ymgynghorwyd â'r Tîm Polisi Corfforaethol, gan gynnwys swyddogion sy'n gyfrifol am Gynllun Corfforaethol a Chynllun Llesiant y Cyngor er mwyn sicrhau parhad ac integreiddio ein dyletswyddau cydraddoldeb ar draws strategaethau allweddol y Cyngor a'n partneriaethau. Roedd hyn yn sicrhau bod ein Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant 2020-2024 yn cipio mentrau mawr ar draws cyfarwyddiaethau ac yn nodi eu cyfraniad at gyflawni ein dyletswyddau cydraddoldeb drwy gydol y strategaeth.

**Arolwg Dinas Deg Caerdydd 2020**

Amlinellodd arolwg Dinas Deg 2020 ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol arfaethedig ar gyfer 2020-2024 a gwahoddodd farn preswylwyr ar flaenoriaethau ar gyfer eu cyflawni.

Roedd yr arolwg hwn ar gael ar-lein, mewn fformat dwyieithog, yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth 2020. Roedd tudalen we benodol gan y Cyngor lle'r oedd yr arolwg ac esboniad o gyd-destun yr ymgynghoriad: https://www.cardiff.gov.uk/CYM/Eich-Cyngor/Strategaethau-cynlluniau-a-pholisiau/Cydraddoldeb-amrywiaeth-a-chydlyniant/Y-Cynllun-Cydraddoldeb-Strategol-a-Pholisiau/Pages/Y-Cynllun-Cydraddoldeb-Strategol-a-Pholisiau.aspx

Roedd copïau print o lyfryn yr arolwg ar gael mewn lleoliadau Cyngor a phartneriaid ledled y ddinas yn ystod y cyfnod hwn. Arddangoswyd posteri hyrwyddo ar draws yr 19 o Lyfrgelloedd a Hybiau'r Cyngor yn y ddinas er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad.

Hyrwyddwyd yr arolwg i staff y Cyngor drwy ein bwletin 'Gwybodaeth Staff', sy'n mynd i 8,182 o gyfeiriadau e-bost ar draws y Cyngor.

Cynhaliwyd ymgyrch gyfathrebu ar y cyfryngau cymdeithasol er mwyn hyrwyddo'r ymgynghoriad. Mae gan gyfrifon Twitter a Facebook Cyngor Caerdydd gynulleidfa ar y cyd o 89,000 o ddilynwyr (78 mil Twitter, 11 mil Facebook).

Cynhaliwyd gwaith maes wedi'i dargedu yn y 10 lleoliad allweddol ar y stryd fawr ar draws y ddinas: Adamsdown, Butetown, Cathays, Trelái, Gabalfa, Grangetown, Pentwyn, Sblot, Llanrhymni, Trowbridge. Mae'r rhain yn ardaloedd lle mae cyfradd ymateb is wedi'i dangos mewn ymgyngoriadau blaenorol.

Cynhyrchwyd yr holl lenyddiaeth a holiaduron ymgynghori gan Ganolfan Ymchwil Caerdydd.


# Â phwy yr ymgynghorwyd â hwy?

Cafodd Arolwg Dinas Deg Caerdydd gyfanswm o 1,593 o ymatebion. Cyrhaeddodd ein digwyddiadau ymgysylltu, grwpiau ffocws a sesiynau un-i-un tua 150 o bobl ychwanegol ar gyfer trafodaethau manwl ynglŷn â'n hamcanion a'u cyflawni.

O'r rhai a ymatebodd i'r Arolwg Dinas Deg, roedd 71.1 % o'r ymatebwyr yn cytuno â'n Hamcanion Cydraddoldeb Strategol arfaethedig, gyda 24.9 % yn mynegi cytundeb cryf. Dywedodd 22.7 % nad oeddent yn siŵr a mynegodd 6.2 % anghytundeb â'r amcanion. Gan ddiystyru'r rhai a ddywedodd nad oeddent yn 'siŵr', mynegodd 92 % o ymatebwyr gefnogaeth i'n hamcanion Cydraddoldeb Strategol arfaethedig.

O'r rhai a ddarparodd eu Data Monitro Cydraddoldeb gyda'u hymateb arolwg:

- Disgrifiodd 49.3 % o'r ymatebwyr eu rhyw fel benywaidd a disgrifiodd 48.3 % eu rhyw fel gwrywaidd
- Roedd 23.1 % o'r ymatebwyr yn 16-34 oed ac roedd 40.8 % o'r ymatebwyr dros 55 oed
- Roedd 14.5 % o'r ymatebwyr yn dod o gefndir Pobl Dduon neu Leiafrif Ethnig
- Nododd 10 % o ymatebwyr eu cyfeiriadedd rhywiol fel Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol neu Arall
- Nododd 1.4 % o ymatebwyr eu bod yn drawsrywiol
- Roedd 1 % o'r ymatebwyr yn feichiog neu wedi rhoi genedigaeth o fewn y 26 wythnos diwethaf ar adeg yr ymateb
- Nododd 17 % o ymatebwyr fod ganddyn nhw neu aelod o'u cartref anabledd
- Roedd gan 40 % o ymatebwyr salwch neu gyflwr iechyd hirsefydlog




Yn ogystal â'r Arolwg Dinas Deg, gwnaethom ddarparu nifer o grwpiau ffocws ymgynghori a digwyddiadau i ymgysylltu'n fanwl â grwpiau nodweddion gwarchodedig ynglŷn â'n Hamcanion Cydraddoldeb Strategol drafft a'r camau gweithredu sydd eu hangen i'w cyflawni.

Roedd hyn yn cynnwys:

- Grŵp ffocws Fforwm 50+ Caerdydd
- Grŵp ffocws Rhwydweithiau Cyflogeion y Cyngor (PDdALlE, Anabledd, Gofalwyr, Menywod, LHDT)
- Digwyddiad rhwydwaith Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Trydydd Sector Caerdydd
- Digwyddiad ymgysylltu Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig Cymru
- Digwyddiad grŵp 'Dweud Eich Dweud' Diverse Cymru

## Seminar Dinas Deg

Cawsom ddigwyddiad ymgysylltu ar 14 Ionawr 2020 i ymgynghori ar ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol drafft gydag arweinwyr cydraddoldeb enwebedig o bob rhan o'r Cyngor a rhanddeiliaid allanol sy'n cynrychioli grwpiau nodweddion gwarchodedig a chymunedau o ddiddordeb.

Croesawodd y digwyddiad siaradwyr arbenigol o Sefydliad Bevan, Llywodraeth Cymru a Stonewall i gefnogi trafodaethau bord gron ynglŷn â'n Hamcanion Cydraddoldeb Strategol a'u cyflawni.

Croesawodd y Seminar 70 o gynrychiolwyr o amrywiaeth o wasanaethau gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol, tai, datblygu economaidd a chaffael.

# Amcan 1: Datblygu a darparu gwasanaethau sy'n ymateb i fwlch anghydraddoldeb Caerdydd

| Dywedodd ymatebwyr i'r ymgynghoriad... | Sut roedd hyn yn llywio ein Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant 2020-2024 |
|---|---|
| Mae diffyg tai fforddiadwy yng Nghaerdydd yn ffactor sy'n cyfrannu'n sylweddol at anghydraddoldeb yng Nghaerdydd, ar gyfer grwpiau nodweddion gwarchodedig a'r rhai ar incwm isel.  Dylid nodi camau gweithredu o dan yr amcan hwn i wella argaeledd tai fforddiadwy o ansawdd da.<br><br>Nododd ymatebwyr y gall mwy o alw am dai lle nad oes digon o gyflenwad wthio costau byw i fyny. | Roeddem yn cynnwys ffocws sylweddol ar dai o dan Amcan 1, gan gynnwys camau i gynyddu'r modd y caiff tai newydd eu darparu i ddiwallu'r angen am dai, mae hyn yn cynnwys cartrefi Cyngor newydd a thai fforddiadwy.<br><br>Rydym hefyd wedi cynnwys camau gweithredu i wella amodau yn y sector rhent preifat ac wedi nodi'r grwpiau sydd fwyaf tebygol o elwa o'r camau gweithredu hyn drwy ein dadansoddiad o'r dystiolaeth sydd ar gael.<br><br>Mae Amcan 1 hefyd yn cynnwys camau gweithredu o ran darparu tai arbenigol ar gyfer pobl hŷn a Sipsiwn a Theithwyr, a'n Cynllun Grant Cyfleusterau i'r Anabl. |
| Mynegodd llawer o ymatebwyr y dylai gweithgarwch i gefnogi'r rhai sy'n profi digartrefedd fod yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer cyflawni'r amcan hwn. | Mae Amcan 1 yn nodi bod cyflawni ein Strategaeth Cysgu ar y Stryd a'n Strategaeth Ddigartrefedd yn fesurau allweddol i gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer cydraddoldeb yng Nghaerdydd.  Rydym yn darparu dadansoddiad o'r grwpiau nodweddion gwarchodedig a grwpiau eraill o breswylwyr a fydd yn elwa fwyaf o gyflawni'r strategaethau hyn. |

| | |
|---|---|
| Nododd ymatebwyr fod gwasanaethau sy'n galluogi preswylwyr i ddysgu sgiliau newydd a chael gafael ar gyngor gyrfa yn hanfodol i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol a rhoi mwy o gyfle i'r rhai a eithrir o'r farchnad lafur leol. Nodwyd y dylai hyn gynnwys mentrau wedi'u targedu ar gyfer pobl ifanc a'r rhai sy'n profi diweithdra hirdymor. | Mae Amcan 1 yn nodi darparu ein Gwasanaeth i Mewn i Waith, gan gynnwys cymorth arbenigol i'r rhai sy'n gadael gofal a phobl ifanc sydd fwyaf tebygol o fod yn economaidd anweithgar, fel cyflawniad allweddol.<br><br>Nodir hefyd bod rhaglen Addewid Caerdydd yn cyflawni yn erbyn yr amcan hwn, gan gynnwys partneriaethau ysgolion/busnes sy'n targedu datblygu sgiliau yn sectorau twf economaidd allweddol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. |
| Nododd ymatebwyr fod gwella gwasanaethau iechyd meddwl a lles emosiynol i bobl ifanc yn bwysig er mwyn cyflawni'r amcan hwn. | Mae nifer o'r hyn y gellir ei gyflawni i wella gwasanaethau iechyd meddwl a lles emosiynol i bobl ifanc wedi'u cynnwys o dan Amcan 1 y strategaeth. |
| Awgrymodd ymatebwyr y dylid adrodd ar waith y Cyngor i fynd i'r afael â Thrais yn Erbyn Menywod a Merched o dan yr Amcan hwn er mwyn sicrhau bod camau penodol yn cael eu cymryd o ran cydraddoldeb rhywiol a darparu gwasanaethau sy'n benodol i ryw. | Mae ein Strategaeth ranbarthol Caerdydd a'r Fro o ran Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2018-2023 wedi ei nodi fel maes cyflawni ar gyfer Amcan 1. |

# Amcan 2: Arwain y ffordd ar gydraddoldeb a chynhwysiant yng Nghymru a'r tu hwnt

| Dywedodd ymatebwyr i'r ymgynghoriad... | Sut roedd hyn yn llywio ein Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant 2020-2024 |
|---|---|
| Mae'n bwysig, fel Cyngor prifddinas Cymru, ein bod yn sefydliad arfer gorau ac yn dal ein hunain i safonau uchel. Dylai'r Cyngor sicrhau bod ei fentrau arfer gorau yn weladwy ac yn llywio arfer ehangach yng Nghymru lle maent yn arwain at ganlyniadau.<br><br>Fel un o'r lleoedd aml-ethnig hynaf yn y DU, dylem geisio cryfhau ein harfer mewn perthynas â chydraddoldeb hiliol a gweithio gyda'n partneriaid i wella canlyniadau i Drigolion Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig Caerdydd. | Mae'r cyraeddiadau a restrir dan yr amcan hwn yn cynnwys nifer o feysydd ymarfer penodol a mentrau newydd sy'n unigryw i Gaerdydd. Bydd y dysgu hwn yn cael ei rannu drwy ein sefydliad a chyda'n partneriaid, a byddwn yn darparu tystiolaeth ynghylch 'beth sy'n gweithio' yn seiliedig ar ein profiadau i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU mewn adolygiadau priodol a galwadau am dystiolaeth.<br><br>Caerdyd oedd un o ddinasoedd cyntaf y DU i sefydlu Tasglu Cydraddoldeb Hiliol yn dilyn protestiadau sylweddol Mae Bywydau Du o Bwys ledled y DU yn ystod haf 2020. Bydd ein Tasglu yn cyfarfod tan ddiwedd y weinyddiaeth bresennol i hyrwyddo camau gweithredu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb hiliol yng Nghaerdydd. Drwy gydol y strategaeth, fe wnaethom nodi tystiolaeth ynglŷn â chanlyniadau trigolion Duon a Lleiafrifoedd Ethnig Caerdydd yn erbyn nifer o feysydd, a bydd ein Hadroddiad Blynyddol yn nodi cynnydd o ran gwella canlyniadau i'r grŵp hwn. |

| | |
|---|---|
| Dylai'r Cyngor weithredu mesurau penodol i wella cyfranogiad mewn gwneud penderfyniadau lleol, yn enwedig i'r grwpiau hynny sydd ar hyn o bryd yn cael eu clywed lleiaf o fewn democratiaeth leol a llunio polisïau. | Mae Amcan 2 yn nodi nifer o gyflawniadau er mwyn gwella cyfranogiad dinesig yng Nghaerdydd. Mae hyn yn cynnwys cyflawni ein menter Dinasoedd sy'n Dda i Blant, a fydd yn gwella cynrychiolaeth lleisiau plant ym mhopeth a wnawn fel Cyngor.<br><br>Byddwn hefyd yn cyflawni sawl menter benodol yn ystod 2021-2022 gan gynnwys; cydlynu Cyfrifiad 2021 mewn partneriaeth â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, gan gyflwyno ymgyrch cofrestru pleidleiswyr ar gyfer pobl ifanc 16-17 oed, a phreswylwyr nad oeddynt wedi'u geni yn y DU, er mwyn mwyhau cyfranogiad yn etholiad Senedd Cymru 2021 a datblygu Strategaeth Ymgysylltu â Dinasyddion yn unol â gofynion Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru).<br><br>Yn ogystal, mae cam gweithredu 2.6 yn esbonio y byddwn yn cefnogi cyfranogiad ymhlith y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig drwy'r canlynol:<br><br>• Darparu gwybodaeth a/neu sesiynau ymgysylltu mewn fformat hygyrch ar faterion allweddol, gan ystyried a lliniaru rhwystrau i gyfranogiad lle bynnag y bo modd, megis drwy ddarparu gwybodaeth mewn iaith arall, Braille, sain, print bras, hawdd ei ddarllen, fideo IAP neu destun plaen. |
| Dylai'r Cyngor barhau i adeiladu ar fentrau llwyddiannus er mwyn gwella ansawdd a diogelwch y swyddi sydd ar gael ym marchnad lafur Caerdydd. | Mae Amcan 2 yn cynnwys ein gwaith i ddod yn Ddinas Cyflog Byw drwy Gynllun Gweithredu Dinas Cyflog Byw 2019-2022 ac mae'n nodi ein cynnydd hyd yma er mwyn cyflawni hyn. |

| | |
|---|---|
| Mae gwaith pellach i'w wneud ledled Cymru i fynd i'r afael â'r bylchau mewn data sy'n ei gwneud yn anodd deall profiadau pobl sydd â nodweddion gwarchodedig.<br><br>Dylai'r Cyngor geisio gwella ei arfer wrth fesur a monitro ein cynnydd yn erbyn ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol a gwneud ei ganfyddiadau'n fwy gweladwy. Dylem ddatblygu metrigau penodol i werthuso ein cynnydd yn erbyn ein hamcanion. | Mae Amcan 2 yn amlinellu ein cynlluniau i greu Dangosfwrdd Data Cydraddoldeb yn ystod blwyddyn sylfaen ein Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant.<br><br>Mae hyn yn cynnwys adolygiad o'r data a gasglwn ar draws y sefydliad ar hyn o bryd a sut rydym yn rhannu data Cymru gyfan a'r DU gyfan gydag adrannau perthnasol er mwyn llywio'u gwaith o ddatblygu polisi. Byddwn yn gweithio tuag at ddod â'r data hwn at ei gilydd mewn un dangosfwrdd integredig er mwyn llywio'r gwaith o gynllunio gwasanaethau a gwerthuso ein cynnydd yn erbyn ein hamcanion. Bydd ein Hadroddiad Blynyddol yn erbyn ein Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant 2020-2024 yn asesu ein cynnydd gan ddefnyddio'r data hwn er mwyn sicrhau bod ein harfer yn cael ei arwain gan dystiolaeth a bod ein cynnydd yn fesuradwy lle y bo'n bosibl. |
| Dylem ddefnyddio ein pwerau cynnull i annog ein partneriaid yng Nghaerdydd, gan gynnwys cyrff eraill yn y sector cyhoeddus, sefydliadau yn y sector preifat a gwirfoddol a sefydliadau addysgol i ddylanwadu ar gydraddoldeb a'i hyrwyddo. | Mae ein Tasglu Cydraddoldeb Hiliol, menter Dinas sy'n Dda i Blant a'r Cynllun Gweithredu Cyflog Byw i gyd yn dibynnu ar feithrin partneriaethau cryf gyda rhanddeiliaid eraill y ddinas. Cydnabyddir meithrin partneriaethau cryf ar draws y ddinas er mwyn cyflawni ein hamcanion cydraddoldeb drwy gydol y strategaeth, gan gynnwys o fewn 'Ein Hymrwymiadau' sy'n sail i'n dull gweithredu cyfan, ar dudalen 9. |
| Mynegodd sawl ymatebydd bryder ynghylch troseddau casineb a rhagfarn a gwelodd rôl i'r Cyngor o ran herio rhagfarn a gwahaniaethu mewn cymdeithas ehangach. | Mae Amcan 2 yn manylu ar ein gwaith i gyflawni Rhaglen Cydlyniant Cymunedol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys camau gweithredu i gydgysylltu cymorth i ddioddefwyr troseddau casineb a chefnogi ymgyrchoedd sy'n codi ymwybyddiaeth o effeithiau niweidiol rhagfarn a gwahaniaethu. |

# Amcan 3: Mae Caerdydd yn hygyrch i bawb sy'n byw, yn ymweld neu'n gweithio yn y ddinas

| **Dywedodd ymatebwyr i'r ymgynghoriad...** | **Sut roedd hyn yn llywio ein Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant 2020-2024** |
|---|---|
| Dylai ein Hamcan ganolbwyntio'n fwy penodol ar hygyrchedd, yn enwedig yn yr amgylchedd adeiledig a dylai nodi mesurau penodol a fyddai'n cefnogi pobl hŷn, pobl anabl a'r rhai sy'n dioddef salwch corfforol i fwynhau bywyd y ddinas. | Diwygiwyd geiriad yr Amcan hwn o 'Sicrhau cynnydd mesuradwy yn y graddau y gall cymunedau sy'n wynebu anghydraddoldeb rannu i mewn, a chyfrannu at, lwyddiant y ddinas' i *'Mae Caerdydd yn hygyrch i bawb sy'n byw, yn ymweld neu'n gweithio yn y ddinas'* yn dilyn ein hymgynghoriad. Y rheswm am hyn yw bod adborth yn awgrymu y dylem fod yn fwy penodol wrth nodi'r hyn yr oeddem am ei gyflawni yn y maes hwn ac y dylai Amcan 3 fod yn fwy gwahanol i Amcan 1.<br><br>Drwy gydol adran Amcan 3 ein strategaeth, rydym yn nodi mesurau penodol a fydd yn gwella cynnwys pobl hŷn, pobl anabl a'r rhai sy'n dioddef salwch corfforol. |
| Mae'n bwysig bod ein hamgylchedd adeiledig yn hygyrch i bawb, yn enwedig canol ein dinas a'n strydoedd mawr.  Mae hyn yn arbennig o bwysig gan fod mesurau ymbellhau cymdeithasol yn cael eu cyflwyno oherwydd Covid. | Rydym yn nodi nifer o bethau y gellir eu cyflawni yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor a fydd yn gwella cysylltiadau trafnidiaeth hygyrch a mannau cyhoeddus dan Amcan 3, gan gynnwys cymhwyso ein Prif Egwyddorion Cynllunio.<br><br>Byddwn yn cynnull fforwm hygyrchedd rheolaidd wrth i fesurau ymbellhau cymdeithasol gael eu cyflwyno ledled y ddinas er mwyn sicrhau bod unrhyw effaith andwyol i unrhyw grŵp nodweddion gwarchodedig yn cael ei nodi a bod camau lliniaru yn cael eu rhoi ar waith lle mae'r effeithiau andwyol hynny'n bodoli. |

| | |
|---|---|
| Dylem integreiddio ystyriaeth o gydraddoldeb yn well, gan gynnwys y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, i'n gwaith o ddatblygu polisi, gan gynnwys gwella ein proses Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb. | Mae Amcan 3 yn manylu ar y gwaith rydym eisoes wedi'i gwblhau yn 2019 er mwyn sicrhau bod hyfforddiant Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gael i holl staff y Cyngor.<br><br>Yn 2021 byddwn yn datblygu cwrs 'Cydraddoldeb wrth Ddatblygu Polisi' ar gyfer rheolwyr a llunwyr polisi ar draws y Cyngor, a fydd yn cynnwys sut i ddod o hyd i dystiolaeth gydraddoldeb berthnasol er mwyn llywio opsiynau a gwerthuso dulliau gweithredu. |
| Mae rhwystrau ieithyddol yn atal rhai grwpiau o bobl rhag cael gafael ar wasanaethau a chyflogaeth yng Nghaerdydd. | Mae Amcan 2 yn manylu ar ein gwaith drwy'r rhaglen Dinasoedd Cynhwysol. Roedd ein Cynllun Gweithredu ar gyfer Cam 1 y Dinasoedd Cynhwysol yn cynnwys mesurau partneriaeth gyda Choleg Caerdydd a'r Fro a rhaglen Ailgychwyn a ariennir gan Lywodraeth Cymru er mwyn gwella mynediad i gyrsiau Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill yng Nghaerdydd, a chymorth cyflogaeth pwrpasol i ffoaduriaid, lle mae tystiolaeth yn awgrymu eu bod yn profi canlyniadau gwael yn y farchnad lafur yng Nghaerdydd a'r DU yn ehangach.<br><br>Mae Amcan 3 hefyd yn manylu ar y mathau o ddarpariaeth arbenigol sydd ar gael yn ein Hybiau a'n Llyfrgelloedd, gan gynnwys darpariaeth Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill mewn rhai lleoliadau lle mae angen lleol am y gwasanaeth hwn. |

# Amcan 4: Creu sefydliad cynhwysol a chynrychioliadol

| **Dywedodd ymatebwyr i'r ymgynghoriad…** | **Sut roedd hyn yn llywio ein Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant 2020-2024** |
|---|---|
| Awgrymodd ymatebwyr fod angen i ni hyrwyddo cyfleoedd gwaith yn eang yn y Cyngor er mwyn annog ymgeiswyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i ystyried gyrfa llywodraeth leol. | Mae Amcan 4 yn manylu ar nifer o bethau y gellir eu cyflawni i hyrwyddo'r Cyngor fel cyflogwr i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys pobl ifanc a'r rhai o gefndiroedd Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, yn enwedig drwy bartneriaethau ag ysgolion, colegau a phrifysgolion lleol. |
| Ymatebodd cyflogeion y Cyngor y dylem sicrhau bod polisïau yn y gweithle yn cael eu cymhwyso'n gyson i sicrhau gweithle agored, teg a chyfartal. | Mae Amcan 4 yn esbonio bod dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth yn elfen hanfodol o'n Strategaeth Gweithlu 2018-2022. Cyflawnir hyn drwy nifer o bolisïau tryloyw sydd ar gael i'r holl staff a rheolwyr ar fewnrwyd y sefydliad, sy'n sicrhau bod yr holl gyflogeion yn cael eu trin ag urddas a pharch. Caiff y polisïau hyn eu hadolygu'n rheolaidd mewn ymgynghoriad â gweithwyr er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol o ran cyflawni'r nodau hyn.<br><br>Mae'r Cytundeb Statws Sengl ar y Cyd hefyd wedi sicrhau cyflog cyfartal am waith cyfartal.<br><br>Bydd cyhoeddi ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau ac ethnigrwydd yn cefnogi tryloywder ymhellach ac yn cynorthwyo'r Cyngor i fesur ei gynnydd tuag at sicrhau gweithlu cynrychioliadol. |

| | |
|---|---|
| Dylid annog gweithwyr presennol o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i gymryd rhan mewn cyfleoedd hyfforddi a datblygu er mwyn cefnogi eu dilyniant o fewn y sefydliad | Bydd ein hymrwymiadau o dan Siarter Hil yn y Gwaith Busnes yn y Gymuned, cynllun Hyrwyddwr Stonewall ac Achrediad Hyderus o ran Anabledd yn sicrhau bod cyfleoedd datblygu a datblygu ar gael i staff PDdALIE, pobl anabl a LHDT fel mesur i helpu i wella cynrychiolaeth ymhlith rolau uwch.<br><br>Mae ein Rhwydweithiau Cyflogeion hefyd wedi datblygu cynlluniau gweithredu ac mae ganddynt uwch noddwyr o fewn y tîm rheoli i'w helpu i'w cyflawni.<br><br>Mae hyfforddiant Sgiliau Cymhwyso a Chyfweld hefyd ar gael i holl staff y Cyngor sy'n awyddus i symud ymlaen i rôl newydd. |
| Dylai'r Cyngor gymryd camau i fynd i'r afael â bylchau yn ei ddata monitro cydraddoldeb ar gyfer ei weithlu fel y gallwn fesur ein cynnydd yn fwy cywir i ddod yn fwy cynrychioliadol o'r cymunedau a wasanaethwn. | Mae Amcan 4 yn nodi y byddwn yn hyrwyddo negeseuon cadarnhaol ynghylch casglu data monitro cydraddoldeb i fynd i'r afael â bylchau o ran ein gweithlu presennol.<br><br>Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r data hwn i ddarparu dadansoddiad lefel tîm i gyfarwyddiaethau, i'w cefnogi i fesur eu cynnydd o ran cyflawni ein hymrwymiad i ddod yn fwy cynrychioliadol. |
| Dylai'r Cyngor sicrhau bod rhaglen o hyfforddiant cydraddoldeb o ansawdd uchel ar gael i'r holl staff. | Cafodd ein cyrsiau hyfforddi Ymwybyddiaeth Cydraddoldeb ac Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb eu diwygio a'u hail-lansio yn 2019 ac maent wedi bod yn boblogaidd ymhlith staff y Cyngor o amrywiaeth eang o adrannau.<br><br>Cânt eu hyrwyddo'n rheolaidd drwy'r holl gyfathrebiadau staff, ac mae ymgyrch hyrwyddo, sy'n annog cymryd rhan yn yr hyfforddiant i gefnogi cynllunio adfer Covid-19, wedi'i chyflwyno yn ystod haf 2020.<br><br>Yn ogystal â'n pecyn safonol o hyfforddiant cydraddoldeb, mae nifer o gyrsiau arbenigol ar gael bob blwyddyn, sy'n cael eu diwygio'n rheolaidd i adlewyrchu anghenion hyfforddi ar draws y sefydliad e.e. Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Fyddardod, Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb. |

# Adolygu'r broses o gyflawni ein Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant yn dilyn dechrau'r Pandemig Coronafeirws

Gwnaethom adolygu ein Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant gan gadw'r Pandemig Coronafeirws mewn cof, gan gydnabod, heb weithredu bwriadol, fod canlyniadau'r argyfwng hwn yn debygol o waethygu anghydraddoldebau presennol yn ein cymdeithas. Mae gwasanaethau cyhoeddus bellach yn gweithredu mewn amgylchedd gwahanol iawn o gymharu â dechrau 2020 ac mae cefnogi'r rhai yr effeithiwyd fwyaf arnynt gan argyfwng Covid-19 wedi bod ar flaen ein meddyliau wrth gynllunio adferiad ac wrth ailgychwyn ein gwasanaethau. Mae ein dull gwella ar draws y Cyngor yn adlewyrchu ysbryd ein polisi cydraddoldeb a amlinellwyd ar ddechrau ein strategaeth a'n Hamcanion Cydraddoldeb Strategol.

Gan gydnabod bod ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd a chanlyniadau'r Pandemig Coronafeirws yn golygu ein bod yn gweithio mewn amgylchedd sy'n datblygu'n gyflym, a bod disgwyl i'r ffactorau hyn ddylanwadu'n fawr ar ein tirwedd yn y dyfodol, caiff ein Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant ei hadolygu a'i diweddaru ar ganol ei chyfnod cyflawni, yn 2022.



# Y dystiolaeth a lywiodd ein Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant 2020-2024

Isod, cewch restr gyflawn o'r dystiolaeth y cyfeirir ati drwy gydol ein Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant 2020-2024 a'r cyfeiriad perthnasol lle gallwch weld y set ddata, y polisi neu'r adroddiad perthnasol.

| Troednodyn | Manylion |
|---|---|
| **2** | Asesiad Llesiant Lleol Caerdydd, Mae Caerdydd yn gymdeithas deg, gyfiawn a chynhwysol: Tlodi, https://www.cardiffpartnership.co.uk/?lang=cy |
| **3** | Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019, Amddifadedd Cyffredinol, Canran yr ACEHIau yn y 10 % o Ardaloedd Mwyaf Difreintiedig yng Nghymru (1-191), https://wimd.gov.wales/?lang=cy |
| **6** | Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC), Maes Addysg, https://wimd.gov.wales/explore?lang=cy#&domain=overall&z=11&lat=51.4681&lng=-3.2065 |
| **7** | Cynllun Llesiant Caerdydd https://www.cardiffpartnership.co.uk/wp-content/uploads/2020/08/Well-being-Plan-2018-23-Cym.pdf |
| **9** | Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, cymhareb prisiau tai i enillion sy'n seiliedig ar breswylfeydd, 2020 https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/housing/datasets/ratioofhousepricetoresidencebasedearningslowerquartileandmedian |
| **10** | Stats Cymru, Tai, Rhenti'r Sector Preifat, https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Housing/Private-Sector-Rents |
| **11** | Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion, Enillion Blynyddol Llawn-amser Caerdydd 2014-2019, https://cy.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/bulletins/annualsurveyofhoursandearnings/2019/relateddata?:uri=employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/bulletins/annualsurveyofhoursandearnings/2019/relateddata&tudalen=2 |
| **12** | Asesiad Marchnad Dai Lleol Caerdydd 2015 a Phapur Briffio Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin: Perchentyaeth a Rhentu: Demograffeg, https://researchbriefings.files.parliament.uk/documents/CBP-7706/CBP-7706.pdf |
| **13** | Cyfrifiad 2001, 2011, https://cy.ons.gov.uk/census?:uri=census |

| | |
|---|---|
| **14** | SYG, Amcangyfrifon aelwydydd mewn tlodi ar gyfer ardaloedd cynnyrch ehangach haen ganol yng Nghymru a Lloegr, Canran yr Aelwydydd dan 60 % o'r Incwm Canolrifol; (ar ôl costau tai) (Cyfartaledd holl ACEHGau Caerdydd), https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/personalandhouseholdfinances/incomeandwealth/datasets/ |
| **15** | Arolwg Holi Caerdydd 2016, https://www.cardiff.gov.uk/ENG/Your-Council/Have-your-say/Ask % 20 Cardiff % 20Library/Introduction % 20and % 20methodology % 20- % 20Ask % 20 Cardiff % 20Survey.pdf |
| **16** | Grŵp ethnig yn ôl sgôr meddiannaeth (ystafelloedd), Cyfrifiad 2011 a Shelter Cymru a Thai Pawb, Digartrefedd ymhlith pobl o Boblogaethau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru, 2015, https://sheltercymru.org.uk/wp-content/uploads/2015/02/BME-REPORT-20141.pdf |
| **17** | Aldridge RW, Lewer D, Katikireddi SV et al. (6 Mai, 2020) Mae grwpiau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn Lloegr mewn mwy o berygl o farwolaeth o COVID-19: safoni data marwolaethau'r GIG yn anuniongyrchol [fersiwn 1; adolygiad gan gymheiriaid: aros am adolygiad gan gymheiriaid]. Wellcome Open Res 2020, 5:88 (https://doi.org/10.12688/wellcomeopenres.15922.1) |
| **17** | Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (1 Mai 2020) - A yw rhai grwpiau ethnig yn fwy agored i COVID-19 nag eraill?, https://www.ifs.org.uk/inequality/chapter/are-some-ethnic-groups-more-vulnerable-to-covid19-than-others/ |
| **18** | Ystadegau Cymru, Digartrefedd yng Nghymru 2018-2019, https://llyw.cymru/digartrefedd-ebrill-2018-i-fawrth-2019 |
| **20** | Cyd-gyngor er Lles Mewnfudwyr a Gwerthusiad o'r Cynllun Hawl i Rentu: Adroddiad gwerthuso llawn cam un, Adroddiad Ymchwil 83, y Swyddfa Gartref, 2015, https://jcwi.org.uk/sites/default/files/documets/No % 20Passport % 20Equals % 20 No % 20Home % 20Right % 20to % 20Rent % 20Independent % 20Evaluation_0.pdf |
| **21** | Cyngor Caerdydd, Strategaeth Tai Pobl Hŷn, https://www.cardiff.gov.uk/CYM/Eich-Cyngor/Strategaethau-cynlluniau-a-pholisiau/Gofal-cymdeithasol-a-Thai/Strategaeth-Tai-Pobl-Hŷn-Caerdydd/Diwallu-anghenion-tai-pobl-hŷn/Documents/CYMRAEG % 20Older % 20 People % 27s % 20Housing % 20Strategy % 202019.pdf |
| **22** | Cyngor Caerdydd, Grant Cyfleusterau i'r Anabl, https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Gwasanaethau-Cymdeithasol-a-Lles/Anabledd/Grant-Cyfleusterau-ir-Anabl/Pages/default.aspx |
| **23** | Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, A yw Cymru'n Decach? Cyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol 2018, https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/is-britain-fairer-2018-is-wales-fairer-welsh.pdf |

| | |
|---|---|
| **24** | Cyngor Caerdydd, Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr, Chwefror 2016, https://www.cardiff.gov.uk/ENG/resident/Housing/Gypsy-and-Traveller-sites/Documents/Gypsy%20Traveller%20Accommodation%20Assessment.pdf |
| **26** | Stats Cymru, Aelwydydd y darparwyd cymorth ar eu cyfer yn ystod y flwyddyn, yn ôl grŵp ethnig yr ymgeiswyr, Caerdydd, 2018-2019 (Ac eithrio 'ethnigrwydd nad yw'n hysbys') https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Housing/Homelessness/Statutory-Homelessness-Prevention-and-Relief/households-for-which-assistance-has-been-provided-during-the-year-by-ethnic-group-of-applicant |
| **28** | Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, Digartrefedd ymhlith ffoaduriaid, 2018, https://commonslibrary.parliament.uk/research-briefings/cdp-2018-0182/ |
| **29** | Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, Digartrefedd ieuenctid a'r rhai sy'n gadael gofal: Mapio ymyriadau yng Nghymru, 2018, https://www.wcpp.org.uk/cy/sylwebaeth/atal-digartrefedd-ymhlith-pobl-ifanc-yng-nghymru/ |
| **30** | Bywydau Diogel, Diogel Gartref: Digartrefedd a cham-drin domestig, 2018, https://safelives.org.uk/sites/default/files/resources/Safe_at_home_Spotlight_web.pdf |
| **31** | Ymddiriedolaeth Albert Kennedy (2015), Digartrefedd Ieuenctid LHDT: Cwmpasu Achosion Cenedlaethol y DU, Nifer yr Achosion, Ymateb a Chanlyniad (Ymddiriedolaeth Albert Kennedy, 2015), https://www.akt.org.uk/Handlers/Download.ashx?IDMF=c0f29272-512a-45e8-9f9b-0b76e477baf1 |
| **32** | Sefydliad Iechyd Meddwl Crisis, https://www.crisis.org.uk/ending-homelessness/health-and-wellbeing/mental-health/ |
| **33** | Cartrefi y canfuwyd eu bod yn gymwys i gael cymorth, yn anfwriadol ddigartref ac mewn angen blaenoriaethol yn ystod y flwyddyn: Blaenoriaeth - Aelwydydd lle mae aelod yn agored i niwed oherwydd: Salwch iechyd meddwl / anabledd dysgu / anawsterau dysgu https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Housing/Homelessness/Statutory-Homelessness-Prevention-and-Relief/households-found-to-be-eligible-for-assistance-unintentionally-homeless-and-in-priority-need-during-the-year-categories-of-priority-need-by-type-of-household-section-75- |
| **34** | Canolfan Dinasoedd, Beth mae argyfwng Covid-19 yn ei olygu i economïau dinasoedd Prydain a threfi mawr?, https://www.centreforcities.org/coronavirus/ |
| **35** | Cronfa Ariannol Ryngwladol, Sut mae Pandemigau'n Gadael y Tlawd hyd yn oed ymhellach yn ôl, https://blogs.imf.org/2020/05/11/how-pandemics-leave-the-poor-even-farther-behind/ |

| | |
|---|---|
| **36** | Sefydliad Addysg UCL (IOE), Ymddiriedolaeth Carnegie UK, ac Ymgyrch Bleidlais Du, Anghydraddoldeb Hiliol yn y Gweithlu: Archwilio cysylltiadau rhwng gwaith, ethnigrwydd ac iechyd meddwl, https://cls.ucl.ac.uk/wp-content/uploads/2017/02/Race-Inequality-in-the-Workforce-Final.pdf |
| **37** | Grŵp Cyllideb Menywod, Ysgol Economeg Llundain, Prifysgol y Frenhines Mary yn Llundain, Cymdeithas Fawcett, Menywod PDdALlE a Covid-19 – Tystiolaeth ymchwil, https://www.fawcettsociety.org.uk/Handlers/Download.ashx?IDMF=cae4917f-1df3-4ab8-94e7 -550c23bdc9cf |
| **38** | Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth 2019-2020, https://cy.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/methodologies/annualpopulationsurveyapsqmi?:uri=employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/methodologies/annualpopulationsurveyapsqmi |
| **39** | Casgliad ymchwil gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, Mae tlodi plant yn taflu cysgod hir dros symudedd cymdeithasol, https://esrc.ukri.org/news-events-and-publications/evidence-briefings/child-poverty-casts-a-long-shadow-over-social-mobility/ |
| **40** | Resolution Foundation, Gweithwyr Ifanc yn ystod argyfwng y Coronafeirws: Canfyddiadau o arolwg Coronafeirws y Resolution Foundation, Mai 2020, https://www.resolutionfoundation.org/publications/young-workers-in-the-coronavirus-crisis/ |
| **41** | Addewid Caerdydd, https://cardiffcommitment.co.uk/cy/ |
| **43** | Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, Codwr Cymdeithasol Wedi Torri? Sut i Hyrwyddo Symudedd Cymdeithasol, 2018, http://www.oecd.org/social/broken-elevator-how-to-promote-social-mobility-9789264301085-en.htm |
| **44** | Become Charity, Gofalu: y Ffeithiau - cyflogaeth, https://www.becomecharity.org.uk/care-the-facts/the-big-issues/employment-and-training/#:~:text=A%20high%20proportion%20of%20care%20leavers%20are%20not,support%2C%20skills%20or%20experience%20to%20find%20a%20job |
| **45** | Llywodraeth y DU, Ffeithiau a Ffigyrau Ethnigrwydd, Gwaith, Cyflog a Budd-daliadau, https://www.ethnicity-facts-figures.service.gov.uk/ |
| **46** | Adolygiad Llywodraeth Cymru: Ymestyn rhianta corfforaethol ar draws gwasanaethau cyhoeddus: plant sy'n derbyn gofal, https://llyw.cymru/ymestyn-rhianta-corfforaethol-ar-draws-gwasanaethau-cyhoeddus-plant-syn-derbyn-gofal-html |

| | |
|---|---|
| **47** | Meddyliau Ifanc, Coronafeirws Yr Effaith ar Bobl Ifanc sydd ag Anghenion Iechyd Meddwl, https://youngminds.org.uk/about-us/reports/coronavirus-impact-on-young-people-with-mental-health-needs/ |
| **48** | Uned Ymarfer yn Seiliedig ar Dystiolaeth, Tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg: Coronafeirws ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc, Mehefin 2020, https://www.ucl.ac.uk/evidence-based-practice-unit/sites/evidence-based-practice-unit/files/coronavirus_emerging_evidence_issue_2.pdf |
| **51** | Ystadegau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, Hil a'r system cyfiawnder troseddol 2018, https://www.gov.uk/government/statistics/race-and-the-criminal-justice-system-statistics-2018 |
| **52** | Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai, Adolygiad Annibynnol dan gadeiryddiaeth yr Arglwydd Laming, Mewn Gofal, Allan o Drafferth, Sut y gellir trawsnewid cyfleoedd bywyd plant mewn gofal trwy eu hamddiffyn rhag cymryd rhan ddiangen yn y system cyfiawnder troseddol, 2016 https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/849200/statistics-on-race-and-the-cjs-2018.pdf http://www.prisonreformtrust.org.uk/Portals/0/Documents/care%20review%20full%20report.pdf |
| **53** | Cyngor Caerdydd, Pob un ohonom: Strategaeth Datblygu Cyfiawnder Ieuenctid, 2020-2022, http://app.prmax.co.uk/collateral/167077.pdf |
| **54** | Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Nodweddion dioddefwyr cam-drin domestig, Cymru a Lloegr: blwyddyn yn gorffen Mawrth 2019, https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/articles/domesticabusevictimcharacteristicsenglandandwales/yearendingmarch2019 |
| **55** | Llywodraeth Cymru, Mae Bywydau Du o Bwys: Prif Weinidog Cymru yn cyhoeddi archwiliad cerfluniau, strydoedd ac enwau adeiladau, https://llyw.cymru/black-lives-matter-prif-weinidog-cymrun-cyhoeddi-archwiliad-o-gerfluniau-enwau-strydoedd-ac-adeiladau |
| **56** | Cyngor Caerdydd, Strategaeth Dinas sy'n Dda i Blant, 2018, https://www.childfriendlycardiff.co.uk/wp-content/uploads/Child-Friendly-City-Strategy-WELSH.pdf |
| **57** | Bil Llywodraeth Cymru, Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru), Memorandwm Esboniadol, Tachwedd 2019, http://www.assembly.wales/laid%20documents/pri-ld12877-em/pri-ld12877-em-w.pdf |
| **58** | Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Swyddi a dalwyd yn is na'r isafswm cyflog yn ôl categori, Hydref 2019, https://cy.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/datasets/jobspaidbelowminimumwagebycategory |

| | |
|---|---|
| **59** | Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion - Amcangyfrifon o nifer a chyfran y swyddi gweithwyr sydd â chyflog fesul awr islaw'r cyflog byw, yn ôl daearyddiaeth gwaith, awdurdod lleol ac etholaeth seneddol, y DU, Ebrill 2018 ac Ebrill 2019, https://cy.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/ |
| **60** | Resolution Foundation, Cyfrifo Cyflog Byw ar gyfer Llundain a gweddill y DU, 2019-20 https://www.resolutionfoundation.org/app/uploads/2019/11/Living-wage-calculation.pdf |
| **61** | Cyngor Caerdydd, Gwneud Caerdydd yn Ddinas Cyflog Byw, https://www.cardiff.gov.uk/CYM/Eich-Cyngor/Strategaethau-cynlluniau-a-pholisiau/Y-Cyflog-Byw/caerdydd-yn-ddinas-cyflog-byw/Pages/default.aspx |
| **62** | Llywodraeth Cymru, Rhaglen Cydlyniant Cymunedol, https://llyw.cymru/paratoi-cymru-brexit/cydlyniant-cymunedol?_ga=2.119115337.1901553612.1598871161-1604584766.1598871161 |
| **64** | Canolfan Ymfudo, Polisi a Chymdeithas, Prifysgol Rhydychen, Dinasoedd Cynhwysol, https://www.compas.ox.ac.uk/project/inclusive-cities/ |
| **65** | Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, A yw Cymru'n Decach?, Adroddiad 2018, https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/is-britain-fairer-2018-is-wales-fairer-welsh.pdf |
| **66** | Cyngor Dylunio, Cynnwys Drwy Ddylunio: Cydraddoldeb, amrywiaeth a'r amgylchedd adeiledig, https://www.designcouncil.org.uk/sites/default/files/asset/document/inclusion-by-design.pdf |
| **67** | Cyngor Caerdydd, Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd, Fframwaith Uwch-gynllunio, 2013 https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Cynllunio/Cynllun-Datblygu-Lleol/Pages/default.aspx |
| **68** | Cŵn Tywys, Ymgyrch Strydoedd O'n Blaenau ac adnoddau, https://www.guidedogs.org.uk/how-you-can-help/campaigning/our-current-campaigns/streets-ahead |
| **70** | Anabledd yn y Deyrnas Unedig, Ffeithiau a Ffigyrau, Ymddiriedolaeth Papworth, 2018, https://www.papworthtrust.org.uk/about-us/publications/papworth-trust-disability-facts-and-figwres-2018.pdf |
| **72** | Cyngor Caerdydd, Ymweld â chanol y ddinas yn ddiogel, https://www.cardiff.gov.uk/CYM/Ymweld/chanol-y-ddinas/Pages/default.aspx |
| **73** | Strategaeth Dementia 2018-2028 Caerdydd a Bro Morgannwg, http://www.cardiffandvaleuhb.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1143/Dementia%20Strategy%20C%20and%20V%202018-2028%20FINAL%20%28003%29.pdf |

| | |
|---|---|
| **74** | Cyngor Caerdydd, Strategaeth Hybiau a Llyfrgelloedd 2019-2023, https://cardiff.moderngov.co.uk/documents/s37665/Cabinet%2020%20Feb%202020%20Hub%20and%20Library%20Strategy%20App%201.pdf |
| **76** | Edoardo Conticini a Bruno Frediani a Dario Carob, A ellir ystyried llygredd atmosfferig fel cyd-ffactor mewn lefel uchel iawn o angeuoldeb SARS-CoV-2 yng Ngogledd yr Eidal?, https://pubmed.ncbi.nlm.nih.gov/32268945/ Xiao Wu, Rachel C. Nethery, Benjamin M. Sabath, Danielle Braun, Francesca Dominici, Marwolaeth yn sgil dod i gysylltiad â llygredd aer a COVID-19 yn yr Unol Daleithiau: Astudiaeth drawstoriadol genedlaethol, https://www.medrxiv.org/content/10.1101/2020.04.05.20054502v2, Matthew A. Cole, Ceren Ozgen, Eric Strobl, Dod i Gysylltiad â Llygredd Aer a COVID-19, https://papers.ssrn.com/sol3/papers.cfm?abstract_id=3628242 |
| **77** | Cyngor Caerdydd, Aer Glân Caerdydd, https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Parcio-Ffyrdd-a-Theithio/aer-Glan-caerdydd/Pages/default.aspx |
| **78** | Cyngor Caerdydd, Strategaeth y Gweithlu 2018-2022, https://cardiff.moderngov.co.uk/documents/s22772/Cabinet%205%20July%202018%20Workforce%20Strategy%20App%201.pdf |
| **79** | Cyngor Caerdydd, Polisi Caffael Cymdeithasol Gyfrifol, https://www.cardiff.gov.uk/CYM/Busnes/Tendrau-Comisiynu-a-Chaffael/Polisiau-gweithdrefnau-a-chanllawiau/Documents/SOCIALLY%20RESPONSIBLE%20PROCUREMENT%20POLICY%20Welsh%2017.4.18.pdf |



UCHELGAIS PRIFDDINAS
CAPITAL AMBITION

CARDIFF
CAERDYDD